Cael trafferth darllen y cylchlythyr yma? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 206 (Cymru) - 21 Chwefror 2018

Seminar ar ddiwygio etholiadol llywodraeth leol

Ddydd Mercher 14 Chwefror, cynhaliwyd seminar yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, a gadeiriwyd gan ein Comisiynydd Elan Closs Stephens, oedd yn edrych ar ddiwygio etholiadol llywodraeth leol.

Bu Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, yn siarad am ei weledigaeth i ddiwygio etholiadau lleol o ganlyniad i'w ddatganiad llafar yn ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn. Yn dilyn hyn cafwyd sesiwn holi ac ateb rhwng Ysgrifennydd y Cabinet a rhai o'r 40 o westai oedd yno, oedd yn cynnwys Swyddogion Canlyniadau, Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol, swyddogion, ymgyrchwyr ac Aelodau Cynulliad.

Mae araith yr Ysgrifennydd Cabinet ar gael ar sianel YouTube y Comisiwn.

Dyma oedd y cyntaf mewn cyfres o seminarau fydd yn rhoi fforwm i'r rheiny sy'n ymwneud â'n democratiaeth i drafod rhai o'r prif faterion sy'n ein hwynebu heddiw. Bydd mwy o seminarau'n cael eu cynnal ym mhob cwr o Gymru yn 2018 a bydd gwybodaeth amdanynt mewn Bwletinau'r dyfodol.

Darparu Canllawiau Modern

Fel nodwyd ym Mwletin 201 ry'n ni wedi bod yn edrych sut i ddiweddaru sut ry'n ni'n cyflwyno ein canllawiau yn unol ag arfer modern a thechnoleg sy'n esblygu, ac ry'n ni'n ddiolchgar i'r rheiny ohonoch sydd wedi bod yn rhannu eich barn ar hyn gyda ni. Gallwn nawr rannu ein cynlluniau cychwynnol gyda chi.

Ry'n ni wedi penderfynu symud o ddefnyddio'r dogfennau PDF a thestun i ddull ar-lein. Bydd hyn yn rhan o ailddatblygiad ehangach gwefan y Comisiwn.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Seminar ar ddiwygio etholiadol llywodraeth leol

Gwybodaeth am y seminar a gynhaliwyd ar 14 Chwefror.

Darparu Canllawiau Modern

Mwy o wybodaeth am brosiect y Comisiwn i foderneiddio canllawiau, gan gynnwys manylion sut i gymryd rhan.

Cofrestru etholiadol: gwladolion y Gambia

Atgoffa nad yw gwladolion y Gambia sy'n preswylio yn y DU yn gymwys i gofrestru i bleidleisio ar hyn o bryd.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma.

Gallwch hefyd danysgrifio i'n *cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Fel rhan o'r fformat newydd bydd pethau'n gliriach fel bod defnyddwyr yn gwybod ymhle maen nhw yn y casgliad o ganllawiau, sut i ddod o hyd i fwy o fanylion a sut i ddychwelyd i'r prif bwyntiau. Bydd hefyd mwy o siartiau llif, teclynnau gweledol a thablau. Bydd hi dal yn bosib gweithio drwy'r broses etholiadol o ben i ben, ac i argraffu copïau o'r canllawiau.

Nid yw hyn yn golygu colli na symleiddio cynnwys, ond ei wneud yn haws dod o hyd iddo. Bydd y fformat felly yn wahanol, ond bydd ansawdd a chyfanrwydd yn aros yr un peth.

Byddwn yn rhoi hyn ar waith mewn camau, ac ry'n ni'n bwriadau cychwyn yn 2019. Dros y misoedd nesaf byddwn yn creu map manwl ar gyfer y newid, gan gynnwys amseriad a threfn cynhyrchu'r canllawiau yn y fformat newydd, a phensaernïaeth a chynllun y dull newydd.

Ry'n ni'n awyddus i barhau i weithio'n agos gyda defnyddwyr ein canllawiau ac felly ry'n ni wedi creu grŵp defnyddwyr fydd yn rhan o ddatblygu'r map. Byddwn hefyd yn profi cynigion yn ehangach, gan gynnwys gyda'r rheiny ohonoch sydd eisoes wedi cysylltu gyda ni ac wedi dweud eich bod am gymryd rhan.

Os hoffech wybod mwy neu gymryd rhan yn profi'r cynigion, e-bostiwch Dr Carol Sweetenham.

Cofrestru etholiadol: gwladolion y Gambia

Yn dilyn adroddiadau diweddar fod y Gambia wedi ailymuno â'r Gymanwlad, ry'n ni wedi derbyn nifer o ymholiadau p'un a bod gwladolion y Gambia bellach yn gymwys i gofrestru i bleidleisio.

Cyn i wladolion y Gambia allu cofrestru i bleidleisio, bydd angen diwygio Atodlen 3 Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981. Heblaw a hyd nes bod hyn yn cael ei wneud nid yw gwladolion y Gambia sy'n preswylio yn y DU yn ddinasyddion cymwys y Gymanwlad sydd â hawl i gofrestru a phleidleisio mewn etholiadau'r DU.

Ry'n ni'n cadw mewn cysylltiad â Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Gartref a byddwn yn eich diweddaru drwy Fwletin yn y dyfodol os caiff deddfwriaeth ei ddiwygio.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Textphone: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2018